Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks
# Nevill Street
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA15 2RS

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks wedi'i lleoli yn nhref Llanelli, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae 141 o ddisgyblion rhwng tair a saith oed ar y gofrestr, gan gynnwys 45 o ddisgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau meithrin. Mae gan yr ysgol bum dosbarth. Mae'n cyflogi saith athro amser llawn gan gynnwys y pennaeth.

Ar hyn o bryd, mae gan 40% o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru. Mae'r ysgol yn datgan bod yr ardal y mae'n ei gwasanaethu yn ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae tua 75% o ddisgyblion o dras ethnig gwyn Prydeinig ac mae gan ryw 22% o ddisgyblion Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg mamiaith.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 27% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o angen addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth yn 2000 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2007.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol ar gyfer Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks yn 2012-2013 yw £3,856 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £2,878. Mae Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks yn y 40fed safle o'r 108 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn;
- mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau da ar draws y cwricwlwm;
- mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai â Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael cymorth da iawn a gwnânt gynnydd sylweddol;
- mae disgyblion yn troi at eu gwaith yn gyflym ac yn ddysgwyr brwdfrydig;
- mae bron bob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol; ac
- mae gan ddisgyblion lais cryf drwy gyngor yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae gan bennaeth yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n cynnig arweinyddiaeth effeithiol;
- mae staff yn gweithio'n dda fel tîm i roi mentrau newydd ar waith ac maent wedi codi safonau cyflawniad yn llwyddiannus;
- mae'r corff llywodraethol yn datblygu ei rôl fel ffrind beirniadol; ac
- mae hunanarfarnu yn tynnu ar ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol.

Fodd bynnag:

- nid yw deilliannau hunanarfarnu bob amser yn cynnig asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu;
- mae'r ysgol yn ymateb yn rhy araf pan fydd angen gwella agweddau ar ei darpariaeth; ac
- nid yw'r ysgol wedi gweithredu i fynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r materion diogelu plant ac iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella presenoldeb

A3 Mireinio gweithdrefnau hunanarfarnu er mwyn canolbwyntio'n gadarnach ar wella safonau lles

A4 Sicrhau bod yr holl athrawon yn defnyddio marcio effeithiol ac asesu effeithiol ar gyfer dysgu ac yn gosod targedau unigol priodol i ddisgyblion

A5 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer ysgrifennu disgyblion ar gyfer amryw ddibenion ar draws y cwricwlwm

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sydd islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwrando ar ei gilydd ac ar oedolion yn dda yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i siarad am eu gwaith ac mae llawer ohonynt yn mynegi eu barn yn hyderus gan ddefnyddio geirfa sydd wedi'i datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda pan fyddant yn gweithio ar eu pennau eu hunain neu gyda'r athro.

Mae disgyblion mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn llwyddiannus. Yn y dosbarthiadau meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn trafod llyfrau fel darllenwyr ac yn trafod beth sy'n digwydd yn y lluniau yn dda. Yn y dosbarthiadau derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn adnabod seiniau llythrennau cychwynnol ac yn gwybod bod seiniau'n dod at ei gilydd i greu geiriau. Mae mwyafrif ohonynt yn gallu defnyddio'u gwybodaeth am ffoneg i lunio a datgodio geiriau newydd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen yn rhugl, gyda mynegiant. Maent yn talu sylw da i atalnodi, yn trafod y prif themâu mewn stori ac yn cynnig barn am ddigwyddiadau a chymeriadau. Maent yn nodi nodweddion testunau ffuglen a ffeithiol ac yn defnyddio tudalen gynnwys a mynegai i'w helpu i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym.

Mae safonau sillafu yn dda yn gyffredinol ar draws yr ysgol ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud ymdrechion llwyddiannus i sillafu geiriau newydd trwy gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ffoneg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau byr gydag atalnodi priodol. Mae disgyblion mwy galluog yn strwythuro'u hadroddiadau'n gronolegol ac yn defnyddio geirfa amrywiol a bywiog i gynnal diddordeb y darllenwr. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ysgrifennu i safon debyg y tu hwnt i'w gwersi Saesneg.

At ei gilydd, mae safonau mewn mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd a TGCh ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn cyflawni safonau priodol yn y Gymraeg. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau a chyfarwyddiadau syml ac mae ychydig ddisgyblion yn defnyddio brawddegau byr yn annibynnol o gwmpas yr ysgol.

Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso medrau meddwl a datrys problemau i sefyllfaoedd newydd ac yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd yn ystod gweithgareddau grŵp. Yn gyffredinol, maent yn talu sylw priodol i awgrymiadau eu cymheiriaid ac yn adeiladu ar eu syniadau ei gilydd yn briodol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i raglenni ymyrryd effeithiol.

Yn 2012, mae asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn dangos bod cyfran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol. Roedd y rhai a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol yn cyd-fynd â chyfartaledd y teulu. Roedd cyfran y disgyblion a enillodd y deilliant uwch na'r disgwyl yn cyd-fynd â chyfartaledd y teulu ar gyfer medrau iaith, uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer datblygiad mathemategol ac ymhell islaw ar gyfer datblygiad medrau personol.

O gymharu ag ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, fe wnaeth perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol osod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer medrau iaith a datblygiad mathemategol ac yn yr 50% uchaf ar gyfer datblygiad medrau personol. Yn gyffredinol, mae cyrhaeddiad disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim cystal â'r grwpiau eraill o ddisgyblion.

**Lles: Digonol**

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a gwyddant sut i ofyn am help gydag unrhyw broblemau. Mae bron bob un o'r disgyblion yn meddu ar wybodaeth briodol am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i fyw bywyd iach.

Mae ymddygiad ac agwedd disgyblion tuag at ei gilydd yn dda ac mae disgyblion hŷn yn awyddus i gefnogi aelodau iau o gymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd ac mae gwaith grŵp yn gynhyrchiol at ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n weithgar at flaenoriaethau'r ysgol gyfan. Er enghraifft, maent yn paratoi gweithgaredd i godi ymwybyddiaeth rhieni o'r fenter hawliau plant. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel cyfeillion maes chwarae ac aelodau o'r pwyllgor eco. Maent yn cymryd eu rolau a'u cyfrifoldebau o ddifrif ac yn rhoi cymorth da i ddisgyblion eraill.

Mae gan ddisgyblion lais cryf drwy gyngor yr ysgol. Maent yn mynegi eu barn yn glir ac yn arwain prosiectau hybu iechyd yn weithgar, er enghraifft trwy gysylltu â chwmni bwyd lleol i gefnogi gweithgaredd bwyd iach. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn codi arian i elusennau lleol ac yn penderfynu pa elusennau i'w cefnogi.

Ychydig arwydd o welliant a ddangoswyd gan gyfraddau presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf ac maent yn parhau ymhlith y 25% isaf o gymharu â chyfraddau ysgolion tebyg. Mae mwyafrif y disgyblion yn brydlon, ond mae gormod ohonynt yn hwyr.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'n defnyddio ymweliadau lleol ac ymwelwyr yn dda i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, fe wnaeth cyn ddisgybl a

fu'n cymryd rhan yng Ngemau'r Gymanwlad ymweld â'r ysgol yn ystod cyfnod canolbwyntio ar gyflawniad, uchelgais ac ymdrech yn gysylltiedig â'r Gemau Olympaidd.

Mae athrawon yn cynllunio rhaglenni hyblyg ac ymatebol, sy'n adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig at amrywiaeth o wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm.

Mae darpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn dda. Mae'r holl athrawon yn hybu defnydd o Gymraeg achlysurol yn llwyddiannus iawn. Caiff y Gymraeg ei defnyddio'n helaeth ar arwyddion ac arddangosfeydd ar y waliau ac mae'r ysgol yn hybu diwylliant Cymru'n dda, er enghraifft, drwy eisteddfod flynyddol, astudiaeth o arlunwyr, awduron a cherddorion o Gymru a hanes y fro.

Mae darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ddysgu am ddatblygu cynaliadwy, ac mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r angen i ailgylchu ac arbed dŵr ac egni. Fodd bynnag, nid yw dinasyddiaeth fyd-eang ac ymwybyddiaeth disgyblion o'r byd ehangach wedi'u datblygu cystal. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi llunio cysylltiadau ag ysgol yng Nghanada ac mae disgyblion yn dechrau cymharu a chyferbynnu gwahanol brofiadau o fywyd ysgol er mwyn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth y tu hwnt i Gymru.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n effeithiol ac yn cyflwyno gwersi symbylol a dychmygus sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o wersi'u mynd yn eu blaen ar gyflymder addas ac mae athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau ac amrywiaeth dda o dechnegau holi i ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i ateb anghenion unigol disgyblion a rhoi lefel briodol o her i wahanol grwpiau o ddisgyblion yn y dosbarth. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac mae perthnasoedd cadarnhaol, cefnogol yn meithrin dysgu yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol system olrhain gynhwysfawr y mae'n ei defnyddio i fonitro perfformiad disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio canlyniadau asesu yn dda i sicrhau eu bod yn paru gwaith yn briodol â galluoedd plant. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac mewn sawl enghraifft, rhoddant adborth llafar cadarnhaol i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw marcio'n canolbwyntio'n ddigon clir ar amcan y wers na'r meini prawf llwyddiant bwriadedig, ac nid yw'n nodi'r camau nesaf y mae angen i ddisgyblion eu cymryd i wella'u gwaith. Mae athrawon yn gosod targedau ar gyfer disgyblion, ond mae'r rhain yn tueddu i fod yn dargedau grŵp ac, yn arbennig ar gyfer disgyblion hŷn, nid ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i wahanol alluoedd neu gamau datblygu'r disgyblion yn y dosbarth. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid yn brin. Mae adroddiadau i rieni yn glir ac addysgiadol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer hybu byw'n iach gan ddisgyblion, a'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Ni chaiff presenoldeb a phrydlondeb eu monitro'n ddigon trylwyr. Nid oes digon o bwyslais rheolaidd ar bwysigrwydd a gwerth presenoldeb da a chyrraedd yr ysgol yn brydlon bob diwrnod ysgol. Caiff hyn effaith negyddol ar les disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu, ond mae rhai gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â materion diogelu yn rhoi ychydig o reswm i bryderu.

Mae perthynas effeithiol gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol ac o ganlyniad i'r rhain, rhoddir cymorth o ansawdd uchel i ddisgyblion a rheini. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o hyn, yn enwedig y rhai sy'n fwy agored i niwed neu sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer nodi, cefnogi a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion disgyblion eu hasesu'n briodol adeg cychwyn yn yr ysgol ac mae strategaethau ymyrryd cynnar llwyddiannus, fel rhaglenni iaith a lleferydd, yn sicrhau bod cynnydd disgyblion wrth ddatblygu medrau llefaredd yn dda. Mae targedu cymorth priodol yn effeithiol yn helpu disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm yn llawn ac i wneud cynnydd da.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol, sy'n annog yr holl ddisgyblion ac oedolion i drin ei gilydd gyda pharch. Mae'n gymuned gynhwysol, lle y mae pob cyfle ar gael yn gyfartal i ddisgyblion. Mae oedolion yn fodelau cadarnhaol o ymddygiad ar gyfer disgyblion trwy hybu parch tuag at unigoliaeth ac amrywiaeth a dathlu cyflawniadau disgyblion yn rheolaidd.

Mae'r adeiladau a'r tir allanol yn ddiogel a chânt eu cynnal a chadw'n dda yn gyffredinol. Mae'r ysgol yn elwa o gael gardd ac ardal chwarae antur sy'n ddeniadol ac yn cael gofal da, ac fe'u defnyddir yn dda gan ddisgyblion i ddatblygu eu medrau corfforol. Fodd bynnag, nid oes mynedfa uniongyrchol i'r awyr agored o unrhyw rai o'r ystafelloedd dosbarth ac, at ei gilydd, nid yw'r ardal awyr agored yn ddigon diddorol na symbylol. Caiff hyn effaith negyddol ar allu'r staff i gyflwyno pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn briodol. Y tu mewn, mae cyflwr sawl ardal yn wael ac nid oes drws ar nifer o doiledau, sy'n amhriodol. Mae adnoddau'n ddigonol yn gyffredinol ac mae maint yr ystafelloedd dosbarth yn addas ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr.

Tynnwyd sylw'r ysgol at nifer o faterion iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth glir a phwrpasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol. Mae'r uwch dîm rheoli yn ei chefnogi'n effeithiol a, gyda'i gilydd, maent yn cyfleu disgwyliadau uchel ynghylch sicrhau gwelliant ac yn herio staff yn effeithiol. Mae'r uwch dîm rheoli a llywodraethwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am berfformiad disgyblion i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

Mae disgrifiadau swydd yn briodol ac yn eglur. Mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n agos i greu ethos ysgol gyfan sy'n annog ac yn gwerthfawrogi gwaith tîm. Defnyddiant gyfarfodydd rheolaidd a system rheoli perfformiad effeithiol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol a symud yr ysgol yn ei blaen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a phrofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda, ac yn dechrau datblygu eu rôl fel ffrindiau beirniadol. Mae'r corff llywodraethol yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o ddata am berfformiad y disgyblion a sut mae hyn yn cymharu â data ysgolion tebyg eraill. Mae pob llywodraethwr wedi'i gysylltu â maes pwnc ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o safonau disgyblion ac effeithiolrwydd mentrau gan yr ysgol.

Mae polisïau'r ysgol yn bodloni gofynion statudol ac mae'r corff llywodraethol yn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu strategaethau i godi safonau mewn llythrennedd, rhifedd a Chymraeg. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

## Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r ysgol yn datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu priodol, sy'n canolbwyntio ar godi safonau a gwella cyrhaeddiad. Fodd bynnag, nid yw deilliannau hunanarfarnu bob amser yn rhoi asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Nid yw rhai materion pwysig yn ymwneud â lles disgyblion wedi cael ystyriaeth ddyledus.

Mae cyswllt addas rhwng gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol a'i chynllunio ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn ystyried safbwyntiau staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn briodol. Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn manteisio ar ystod o dystiolaeth uniongyrchol yn dda, fel arsylwadau ystafell ddosbarth a chraffu ar waith disgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu weithgar sydd wedi ysgogi amrywiaeth o rwydweithiau arfer broffesiynol ac yn cymryd rhan ynddynt. Mae'r rhain yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i staff wella'u medrau a'u gwybodaeth broffesiynol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau gwaith disgyblion ac yn gwella gallu'r ysgol i wneud gwelliannau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid a chaiff hyn effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae partneriaethau gyda rhieni yn gadarn. Teimlant eu bod yn cael cymorth da a’u bod yn gallu troi at arweinwyr a staff gyda hyder.

Mae partneriaeth effeithiol gyda’r ysgol gynradd gyfagos. Mae hyn yn sicrhau pontio llwyddiannus i ddisgyblion ac mae’n cynnig cyfleoedd defnyddiol i athrawon gydweithio i ddatblygu rhaglenni ar gyfer llythrennedd a rhifedd a rhannu enghreifftiau o arfer dda. Mae’r ysgol wedi meithrin cysylltiadau cryf gyda’r grŵp cyn-ysgol lleol i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym ar ôl trosglwyddo.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol cadarn sy’n cael effaith sylweddol ar safonau disgyblion. Mae cysylltiadau effeithiol â’r clwstwr ysgolion lleol gan fod y pennaeth yn arweinydd datblygiad proffesiynol parhaus. O ganlyniad i’r cydweithio hwn, bu cyfleoedd gwell i rannu arbenigedd, fel diwrnod hyfforddi ysgol gyfan i wella safoni gwaith yn y pynciau craidd. Mae hyn wedi sicrhau mwy o gysondeb yng ngweithdrefnau asesu’r ysgol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar waith i fonitro ei chyllideb. Mae nifer ddigonol o athrawon a staff cymorth sydd â chymwysterau addas ac mae’r ysgol yn eu defnyddio’n effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio’r amser cynllunio, paratoi ac asesu hwn yn dda, ac mae arweinwyr yn trefnu a rheoli hyn yn dda.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn nodi anghenion hyfforddi’r holl staff yn briodol. Mae’r ysgol yn cynllunio ac yn darparu hyfforddiant yn ymwneud â blaenoriaethau’r ysgol yn effeithiol.

Mae ystod ddigonol o adnoddau dysgu, y mae staff yn eu defnyddio’n dda i ategu dysgu’r disgyblion. Fodd bynnag, mae’r adeiladau a chyflwr rhywfaint o’r dodrefn a’r adnoddau yn wael. Mae diffyg trylwyredd yng ngwaith cynnal a chadw bob dydd yr adeilad, sy’n cael effaith negyddol ar ansawdd yr amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion a staff. Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi gwella’i hardal ddysgu awyr agored, ond nid yw’n amgylchedd digon symbylol i gynnal diddordeb disgyblion.

Yng ngoleuni’r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni ac ansawdd y ddarpariaeth, mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Cyflawnodd tuag 88% o ddisgyblion y lefel ddisgwyliedig o ran eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol yn 2012. Roedd hyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Cyflawnodd yr holl ddisgyblion y lefel ddisgwyliedig mewn datblygiad mathemategol.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch na'r disgwyl ar gyfer eu datblygiad mathemategol uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu, ond yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru. Mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, mae perfformiad yr ysgol yn cyd-fynd â'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch na'r disgwyl mewn datblygiad personol a chymdeithasol ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru.

O gymharu ag ysgolion yng Nghymru sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim, mae deilliannau'r ysgol yn ei gosod yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol disgyblion, ac yn yr 50% uchaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol.

Yn 2012, fe wnaeth bechgyn berfformio'n well na merched ar y lefel ddisgwyliedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol. Fodd bynnag, ar y lefel uwch na'r disgwyl, fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn yn y ddau faes hyn. Mewn datblygiad mathemategol, mae perfformiad bechgyn a merched yn weddol debyg ar y lefel ddisgwyliedig, ond mae bechgyn yn perfformio'n well na merched ar y lefel uwch na'r disgwyl.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â grwpiau eraill o ddisgyblion.

# Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron i ddysgwyr**

Oherwydd oedran y plant yn yr ysgol, ni lenwyd yr un holiadur Estyn gan ddysgwyr.

**Holiaduron i rieni**

Llenwodd pedwar deg pedwar o rieni neu ofalwyr yr holiadur.

Mae bron bob un o'r rhieni neu ofalwyr yn dweud:

- eu bod yn gyffredinol fodlon â'r ysgol ac y caiff ei rhedeg yn dda;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod eu plentyn wedi cael help i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau;
- bod staff yn trin yr holl blant yn deg a chyda pharch;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn gysurus ynghylch siarad â'r ysgol; a
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i aeddfedu ac ymgymryd â chyfrifoldebau.

Mae'r rhan fwyaf o rieni neu ofalwyr yn dweud:

- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas â'i anghenion;
- eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn;
- bod yr ysgol yn cynnig ystod dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- eu bod yn deall gweithdrefnau cwyno'r ysgol; a
- bod eu plentyn yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae llawer o rieni o'r farn:

- bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu.

Yn gyffredinol, mae barn y rhieni a gofalwyr hyn yn cyd-fynd â'r meincnodau, neu ychydig yn fwy cadarnhaol na'r meincnodau ar gyfer ymatebion o'r holl ysgolion cynradd a arolygir yng Nghymru.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Jane Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Justine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Ruth Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Kim Sherlock | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.